Llywodraeth Cymru

# Cyflyrau Cronig

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gefnogi pobl â chyflyrau cronig

Mawrth 2025

# Cynnwys

**Argymhelliad 1** ........ 3
**Argymhelliad 2** ........ 4
**Argymhelliad 3** ........ 6
**Argymhelliad 4** ........ 7
**Argymhelliad 5** ........ 9
**Argymhelliad 6** ........ 10
**Argymhelliad 7** ........ 12
**Argymhelliad 8** ........ 13
**Argymhelliad 9** ........ 15
**Argymhelliad 10** ........ 16
**Argymhelliad 11** ........ 17
**Argymhelliad 12** ........ 18
**Argymhelliad 13** ........ 19
**Argymhelliad 14** ........ 20
**Argymhelliad 15** ........ 21
**Argymhelliad 16** ........ 22
**Argymhelliad 17** ........ 23
**Argymhelliad 18** ........ 24
**Argymhelliad 19** ........ 26
**Argymhelliad 20** ........ 28
**Argymhelliad 21** ........ 30

# Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i roi ffocws o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd wedi'u cynllunio o amgylch yr unigolyn, nid eu cyflwr. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r gwaith y mae'n ei wneud i roi ei chamau gweithredu diwygiedig ar waith i gefnogi ei strategaeth 'Cymru Iachach'. Dylai hyn gynnwys cerrig milltir penodol ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu diwygiedig, ac asesiad o sut y byddant yn gwella gofal a gwasanaethau i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig.*

## Ymateb:

Derbyn mewn Egwyddor

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd y 35 o gamau gweithredu diwygiedig ar gyfer Cymru Iachach. Nod y camau gweithredu diwygiedig yw cefnogi'r gwaith o ddarparu system iechyd a gofal effeithiol sy'n mynd i'r afael â'r heriau y mae ein system iechyd a gofal yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn un o'r egwyddorion sylfaenol craidd sy'n sail i gamau gweithredu diwygiedig Cymru Iachach a dyna'r rheswm pam cafodd gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ei ddewis fel un o'n themâu allweddol. O dan ein dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rydym am weld pob un yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal amserol sy'n cael eu darparu ar sail anghenion yr unigolyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd yn erbyn y 35 o gamau gweithredu diwygiedig er mwyn sicrhau bod ein camau gweithredu yn parhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cymryd rhwng 2025 a 2028 pan fydd y strategaeth Cymru Iachach yn dod i ben.

# Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i ymchwilio i ailgyfeirio gwasanaethau i 'gofleidio' cleifion sy'n byw gyda chyflyrau cronig, gan ddarparu clinigau 'siop un stop' sy'n cyfuno gwahanol wasanaethau a gweithwyr meddygol proffesiynol mewn un lle. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y gwaith presennol i ddarparu gwasanaethau ar ffurf y model hwn, ac yna roi diweddariad blynyddol inni gydag enghreifftiau o wasanaethau newydd sy'n cael eu datblygu.*

## Ymateb:

Gwrthod

Un o nodau Llywodraeth Cymru ers tro byd yw bod pobl yn cael mynediad at y rhan fwyaf o'r gofal sydd ei angen arnynt i reoli eu hiechyd a'u llesiant yn y cartref neu'n agos at y cartref, gyda phobl yn mynd i'r ysbyty dim ond pan mai dyma'r peth iawn ar gyfer eu hanghenion penodol.

Meddygon teulu yw sylfaen gwasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob cymuned ledled Cymru. Mae meddygon teulu yn arbenigwyr mewn rheoli amlafiachedd ac yn fedrus gydag asesiadau holistaidd. Gan gydweithio â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal sylfaenol a chymunedol eraill, mae ganddynt rôl hanfodol wrth ddarparu cymorth rhagweithiol hygyrch yn lleol i bobl â chyflyrau cronig fel rhan o ddull amlbroffesiynol, gyda chymorth a chyngor gan wasanaethau gofal eilaidd. Mae cyflwyno nifer o alluogwyr systemau fel consultant connect, System Atgyfeirio Cleifion Cymru, a Llwybrau Iechyd Cymunedol yn cryfhau'r rhyngweithio hwn rhwng y rhai sy'n darparu gofal yn y gymuned ac' arbenigwyr ar gyflyrau mewn gofal eilaidd.

Er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i bobl â chyflyrau cronig nawr ac yn y dyfodol, rhaid i'r system iechyd ailgydbwyso'r' ffordd y mae'n buddsoddi ac yn defnyddio ei gweithlu i gynyddu capasiti practisau cyffredinol a gwasanaethau eraill yn y gymuned. Rhaid i gyflymder a graddfa'r gwaith o ailgydbwyso'r system iechyd a gofal gynyddu i fodloni'r angen i reoli amlafiachedd. O ganlyniad, mae Fframwaith Cynllunio'r GIG Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-28 yn nodi bod atal ac adeiladu capasiti cymunedol yn flaenoriaethau.

Mae mwy a mwy o fodelau clinig siop un stop yn ymddangos wrth ddatblygu gwasanaethau, yn bennaf er mwyn gwella diagnosis sy'n seiliedig ar symptomau, megis

ymchwilio i symptomau'r llwybr wrinol neu ddiffyg anadl yn hytrach na rheoli amlafiachedd.

Mae mynediad pobl at driniaeth ddydd, ymweliadau iechyd, nyrsio ardal, gofal lliniarol, meddyginiaeth a gwasanaethau i bobl â salwch ar ôl heintiau acíwt, yn enghreifftiau eraill o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch anghenion a symptomau'r unigolyn yn hytrach nag o amgylch cyflyrau. Mae gwelyau gofal cleifion mewnol ysbytai yn cael eu cefnogi gan feddygaeth gyffredinol ac arbenigwyr gofal henoed, gan ymdrin â chyflyrau lluosog ac anghenion cymhleth, gan gynnwys eiddilwch. Yn ogystal â'r gwasanaethau hyn, rhaid i'r GIG barhau i ddarparu mynediad at arbenigwyr is-arbenigedd o dan fodel gofal cleifion allanol. Mae'r rhain yn rhoi cyngor i dimau clinigol eraill neu'n neilltuo cleifion ar gyfer diagnosteg fwy arbenigol, ymyriadau cyfyngedig o ran amser, neu pan fo angen, ar gyfer rheoli cyflyrau mwy cymhleth. Gyda'r adnoddau priodol, rôl practis cyffredinol yw ailintegreiddio gofal unigolyn, gan ddefnyddio cofnodion iechyd a gofal digidol sy'n fwyfwy integredig.

# Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar fyrder y defnydd o gynlluniau gofal unigol ar gyfer cleifion â chyflyrau cronig i sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn cael cynnig cynllun fel mater o drefn, ac i sicrhau cysondeb o ran ymarfer. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda chanfyddiadau'r adolygiad 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.*

## Ymateb:

Gwrthod

Er bod Llywodraeth Cymru yn deall yr alwad am adolygiad cenedlaethol, nid oes cynlluniau i gynnal adolygiad o'r defnydd o gynlluniau gofal. Fodd bynnag, bydd y Prif Swyddog Nyrsio a'r Prif Swyddog Meddygol yn ysgrifennu i'r byrddau iechyd i bwysleisio manteision cynlluniau gofal unigol i unigolion sydd wedi cael diagnosis o gyflwr cronig i'w helpu i reoli effaith hyn ar eu hiechyd a'u llesiant.

Derbynnir bod cynnig cynllun gofal i unigolyn sydd â diagnosis o gyflwr cronig yn arfer da. Mae'r cynllun gofal hwn yn benodol i'r unigolyn a'i anghenion a'i amgylchiadau. Gallai'r cynllun gofal fod ar ffurf cytundeb llafar syml neu'n gofnod mwy ffurfiol sy'n nodi'r hyn y bydd yr unigolyn yn ei wneud a'r amrywiaeth o ofal a chymorth amlbroffesiynol y gall gael gafael arno i reoli ei iechyd a'i lesiant neu os yw ei iechyd yn dirywio neu ei fod mewn argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi gwasanaethau'r GIG i gynnig cynlluniau gofal:

Cynlluniau gofal unigol: canllawiau ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau cronig | LLYW.CYMRU

Mae tystiolaeth bod gofal rhagweithiol systematig wedi'i dargedu i nodi, asesu a chytuno ar gynllun gofal yn y dyfodol ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd a llesiant cymhleth a phobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch yn gosteffeithiol ac yn sicrhau gwell canlyniadau i'r boblogaeth honno. Er mwyn meithrin capasiti ar gyfer gofal rhagweithiol aml-broffesiynol ar gyfer y 0.5% uchaf o'r boblogaeth sydd â risg o gael anghenion gofal brys, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £11.95m yn rheolaidd o 2024-25. Mae monitro'r defnydd o'r cyllid hwn wedi dangos bod yr arfer ar lawr gwlad yn parhau'n dameidiog ac anghyson ledled Cymru. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu canllawiau cenedlaethol a chyflwyno offeryn digidol cenedlaethol i adnabod y bobl sydd yn y perygl mwyaf.

# Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd Gweithrediaeth y GIG yn monitro ac yn gorfodi'r byrddau iechyd i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y darperir y safonau ar gyfer gofal a amlinellir mewn Datganiadau Ansawdd, a sut y bydd hyn yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir.*

## Ymateb:

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i fonitro sut y mae Datganiadau Ansawdd yn cael eu rhoi ar waith.

Mae Datganiadau Ansawdd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r hyn yw natur gwasanaethau clinigol da ar ffurf disgwyliadau cynllunio. Mae disgwyl i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ddefnyddio'r disgwyliadau hyn fel sail i'w gwaith o gynllunio gwasanaethau clinigol. Nid yw Datganiadau Ansawdd yn gosod safonau gofal clinigol gan fod y rhain yn cael eu pennu gan sefydliadau fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Mae Datganiadau Ansawdd yn gosod disgwyliadau cynllunio – a gallant gynnwys llwybrau gofal y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn unol â safonau clinigol – i gefnogi sefydliadau'r GIG i gynllunio gwasanaethau clinigol o ansawdd uwch, a mwy cyson. Mae'r disgwyliadau cynllunio hyn yn cael eu cymhwyso drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG ac fe'i cefnogir gan fesurau yn Fframwaith Perfformiad y GIG.

Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif drwy gyfarfodydd Bwrdd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig misol. Mae hyn yn cynnwys profi sut mae sefydliadau'r GIG yn symud ymlaen tuag at y disgwyliadau a nodir mewn Datganiadau Ansawdd, a chydymffurfio ag unrhyw lwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, gan ddefnyddio setiau data cenedlaethol i gymharu amrywiadau mewn ansawdd neu ganlyniadau gwasanaethau. Mae Gweithrediaeth y GIG yn cefnogi'r prosesau hyn drwy arwain ar y gwaith o ddatblygu'r llwybrau a'r setiau data cenedlaethol, yn cydweithio â gwasanaethau clinigol i gymharu'r ddarpariaeth a rhannu arferion da, yn adrodd ar amrywiaeth o ran ansawdd gwasanaethau i gefnogi trafodaethau atebolrwydd cadarn gyda sefydliadau'r GIG, ac yn darparu ymyriadau cefnogol i wella ansawdd gwasanaethau.

Rhaid i'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gymharu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn erbyn y disgwyliadau cenedlaethol, nodi'r bylchau rhwng y

disgwyliadau hynny a'u darpariaeth, a dangos cynlluniau neu gamau gweithredu i gau'r bwlch hwnnw ymhen amser. Mae Gweithrediaeth y GIG yn cefnogi hyn drwy ddarparu barn arbenigol berthnasol a data ar amrywiadau a gellir defnyddio'r rhain i adolygu gwasanaethau neu fel cymorth ar gyfer gwella ansawdd.

# Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i sicrhau bod cyfleoedd addysg feddygol barhaus yn cynnwys safbwyntiau a phrofiadau cleifion sy'n byw gyda chyflyrau cronig, ac yn hybu gofal empathig.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae darpariaeth gofal empathig yn cael ei chynnwys yn Ymarfer Meddygol Da y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ar gyfer Meddygaeth, sy'n diffinio safonau proffesiynol.

Bydd angen gwneud rhagor o waith i gynnwys ymgysylltu â Grwpiau Cleifion a Cholegau, GMC, y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) ac ati er mwyn deall pa gamau gweithredu ychwanegol sydd angen eu cymryd.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd hyn yn dibynnu ar y gwaith ychwanegol sydd i'w wneud.

# Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda GIG Cymru i wella dealltwriaeth y cyhoedd o rolau gwahanol aelodau'r tîm amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol a sicrhau bod gwasanaethau atgyfeirio uniongyrchol a ddarperir gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cael eu nodi'n glir i annog mwy o ddefnydd ohonynt.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru yn amlinellu'r trawsnewidiad sydd ei angen er mwyn sicrhau gwell mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPs). Mae hyn yn cynnwys:

- cyfran uwch o AHPs yn gweithio mewn gwasanaethau sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd yn ôl yr angen
- AHPs yn cael eu darparu'n gynharach yn nhaith gofal iechyd pobl
- atgyfeirio cliriach at AHPs sy'n gweithio fel rhan o wasanaethau sylfaenol a chymunedol.

Ym misoedd Chwefror a Mawrth 2023 gwnaed dau gyhoeddiad pwysig gan y cyn Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a oedd yn cadarnhau ymrwymiad a ffocws Llywodraeth Cymru ar gryfhau gwasanaethau yn y gymuned trwy ehangu capasiti mewn gofal sylfaenol a chymunedol.

- £5m i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n gweithio yn y gymuned ac mewn gwasanaethau sylfaenol, a
- cynnydd mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau Adferiad i Fyrddau Iechyd rhwng £5m a £8m.

Mae model Gofal Sylfaenol Cymru yn nodi'n glir y gofyniad am weithlu amlbroffesiynol, gan integreiddio AHPs sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. O fis Ebrill 2023, mae £5 miliwn wedi'i ddarparu'n flynyddol i fyrddau iechyd i greu rolau AHP ychwanegol mewn gwasanaethau Sylfaenol a chymunedol ac mae ffrydiau gwaith yn y Rhaglenni Cenedlaethol yn ymgorffori AHPs mewn gwasanaethau mwy hygyrch.

O fis Mawrth 2023, ehangwyd y Rhaglen Adferiad gyda mwy o fuddsoddiad i'r rhaglen hon o £5m bob blwyddyn hyd at £8m yn gylchol. Roedd y cynnydd hwn er mwyn

galluogi byrddau iechyd i barhau i ddatblygu gwasanaethau i bobl y mae COVID hir yn effeithio arnynt ac ehangu mynediad at y gwasanaethau hyn i bobl â chyflyrau eraill ond symptomau tebyg ac sy'n gorgyffwrdd â'r' rhai â COVID hir. Mae'r cyflyrau eraill hyn yn cynnwys pobl sydd â salwch ar ôl heintiau acíwt eraill, fel Enseffalomyelitis Myalgig, Syndrom Blinder Cronig (ME/CFS), a ffibromyalgia, ond hefyd salwch sy'n dod o dan derm ymbarél 'Symptomau Corfforol Parhaus' ac efallai nad oes ganddynt label diagnostig. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu trwy fodel gofal amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae un bwrdd iechyd wedi sefydlu mecanweithiau hunangyfeirio yn eu gwasanaethau a ariennir gan Adferiad ac mae'r chwe bwrdd arall naill ai'n bwriadu mabwysiadu'r dull hwn neu'n ystyried dichonoldeb gwneud hynny.

Mae'r Rhaglen Fframwaith AHP wedi ysgogi newid sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Er enghraifft, mae'r Fframwaith Adsefydlu a'r Safonau yn darparu canllawiau clir ar gyfer ansawdd adsefydlu, gan gynnwys adsefydlu cymunedol a chymorth ar gyfer cyflyrau tymor hir. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), a fu'n cynnal y Rhaglen Fframwaith AHP, a'r Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol wedi datblygu amlinelliad clir o'r rolau AHP mewn amrywiaeth o leoliadau. Ar hyn o bryd, mae AaGIC yn cwblhau tudalennau gwe newydd a gwybodaeth am y proffesiynau perthynol i iechyd, gan gynnwys gwybodaeth am yrfaoedd ac animeiddiad newydd i egluro sut mae AHPs yn helpu pobl. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau ac ar gael ar-lein erbyn Gwanwyn 2025.

Cyfrifoldeb byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yw cyfeirio pobl at wasanaethau a gwybodaeth am sut i gael gafael ar AHP ledled Cymru a sicrhau apwyntiad. Mae gwybodaeth yn cael ei darparu ar lawer o'u gwefannau; mae rhai yn cynnwys ffurflenni atgyfeirio uniongyrchol neu rifau ffôn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â GIG Cymru a gwasanaethau cynllunio a chymunedol integredig awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad yr wybodaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol a pherthnasol. Bydd cyfeiriaduron gwasanaethau fel Dewis Cymru a GIG 111 hefyd yn ganolog i'r gwaith hwn.

# Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar yr adolygiad o brotocol cyfathrebu Cymru Gyfan rhwng y meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd, a nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda GIG Cymru i wella'r cyfathrebu rhwng y meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd.*

## Ymateb:

Derbyn

Nodwyd Safonau Cyfathrebu Cymru Gyfan rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru yn 2018. Mae'r Safonau yn disgrifio protocol ar gyfer ymddygiadau clinigol a chyfathrebu ar draws y rhyngwyneb gofal eilaidd sylfaenol. Yn dilyn pryderon a godwyd gan gynrychiolwyr meddygon teulu y llynedd nad oedd y safonau hyn yn cael eu dilyn, gan arwain at achosion o lwyth gwaith cynyddol i'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, aeth yr Uwch Swyddog Meddygol ar gyfer Gofal Sylfaenol ati i gynnal adolygiad. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd ar fersiwn ddiwygiedig o'r Safonau a fydd yn ystyried datblygiadau digidol mewn cyfathrebu. Disgwylir i'r broses hon ddod i ben erbyn mis Gorffennaf 2025.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i sut y gellir cryfhau mecanweithiau sicrwydd lleol ar gydymffurfio â'r Safonau. Bydd ymgysylltu rhwng byrddau iechyd a phwyllgorau meddygol lleol yn allweddol i fonitro cydymffurfiaeth weithredol â'r Safonau. Bydd hyn yn helpu i ddatrys ymddygiadau lleol nad ydynt yn cyd-fynd â'r safonau, gan dynnu sylw hefyd at enghreifftiau lle mae galw a phwysau uchel ar draws y system gyfan yn effeithio ar y gallu i lynu wrth y dull y cytunwyd arno. Rhagwelir y bydd cyflwyno'r dull Llwybrau Iechyd Cymunedol hefyd yn helpu i sicrhau gwell cyfathrebu rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd wrth nodi canllawiau cyson ar gyfer atgyfeirio.

# Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o sicrhau bod arferion da ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, er mwyn i bocedi o arfer da gael eu lledaenu ar draws y system. Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl Gweithrediaeth y GIG a rhwydweithiau clinigol yn y gwaith hwn.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae'r GIG yng Nghymru, gyda chefnogaeth Gweithrediaeth y GIG, mewn sefyllfa dda i nodi a rhannu arferion gorau.

Yn Fframwaith Cynllunio'r GIG, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei disgwyliad bod pob rhan o'r GIG yn ceisio dysgu'n barhaus o arferion gorau o'r GIG yng Nghymru a thu hwnt, gan gydweithio'n rhagweithiol i nodi arloesi llwyddiannus – gan gymhwyso egwyddor o "addasu, mabwysiadu neu gyfiawnhau". Mae hyn yn cynnwys cynnydd cyflym o ran arloesi a thrawsnewid digidol, er mwyn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Drwy'r llythyr cylch gwaith blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weithrediaeth y GIG rannu arferion da a dangos arweinyddiaeth systemau wrth wella ansawdd trwy gefnogi rhaglenni penodol a thrwy'r defnydd deallus o ddata a gwybodaeth arall. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan System Rheoli Ansawdd Genedlaethol (NQMS) Gweithrediaeth y GIG; a thrwy feincnodi a thriongli'r wybodaeth hon ar draws gwasanaethau er mwyn llywio gweithgarwch perfformiad a sicrwydd.

Mae'r 60 Clwstwr, lle mae gwasanaethau iechyd a gofal lleol yn dod ynghyd i gydweithio ar lefel gymunedol, yn fecanweithiau rhagorol ar gyfer arloesi a gweithredu atebion lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £20 miliwn i glystyrau fuddsoddi yn yr atebion lleol hyn. Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan (PCPGs) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw'r mecanweithiau ar lefel sirol a rhanbarthol, yn y drefn honno, ar gyfer mabwysiadu ac addasu ar raddfa fawr y cynlluniau clwstwr hynny sy'n llwyddiannus.

Er mwyn cefnogi PCPGs a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Gweithrediaeth y GIG yn darparu amrywiaeth o ganllawiau ac adnoddau eraill sy'n tynnu ar ddysgu ac arferion da a ffynonellau eraill o dystiolaeth. Er enghraifft, mae'r rhwydweithiau clinigol

yn datblygu Llwybrau Iechyd Cymunedol ar gyfer cyflyrau fel COPD, asthma, diabetes a chlefyd y galon ar gyfer mabwysiadu ac addasu'n lleol.

Amlygir amlafiachedd yn y **Fframwaith Clinigol Cenedlaethol - System Ddysgu Iechyd a Gofal** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn tynnu sylw at y ffaith bod y model clinigol presennol yn gallu canolbwyntio ar arbenigeddau ac mae angen symud i ddull sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae datblygiad **Gweithrediaeth y GIG** yn arwydd o ffordd newydd o weithio, ac nid yw'r themâu a nodir yn eu cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru yn benodol i gyflyrau clefydau, lleoliadau nac i grwpiau poblogaeth. Mae Gweithrediaeth y GIG yn cynnwys llawer o swyddogaethau a rhaglenni cenedlaethol mewn un endid, ac er bod gwahanol yrwyr polisi, gan gynnwys Datganiadau Ansawdd a rhaglenni cenedlaethol, mae Gweithrediaeth y GIG yn gyfle i gydweithio ar y cyd i alinio rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau dull system gyfan.

Mae rôl allweddol i'r Rhwydweithiau Clinigol Strategol o fewn Gweithrediaeth y GIG i gydweithio er mwyn ystyried amlafiachedd. Mae datblygu'r Rhwydwaith Clinigol Strategol ar gyfer Clefyd Cardiofasgwlaidd yn enghraifft dda o ddod â theulu o rwydweithiau a phartneriaid ynghyd i wella canlyniadau'r boblogaeth ar gyfer pobl â chyflyrau gwahanol, sy'n gofyn am ddull tebyg ac integredig i fynd i'r afael â rhai o ffactorau ffordd o fyw cyffredin a ffactorau risg eraill, a'r gweithgarwch iechyd cyhoeddus o ran atal yn y meysydd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhain. Rydym yn disgwyl i rwydweithiau gydweithio'n agos â'r rhaglenni cenedlaethol i helpu i gyflwyno arferion da ledled Cymru.

# Argymhelliad 9

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Mae’n bwysig bod prosiectau peilot llwyddiannus sy’n sicrhau gwelliannau i gleifion yn cael eu nodi, fel y gellir rhannu arferion da ac arloesedd ledled Cymru.* O fewn 6 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi’n glir ei disgwyliadau ei hun o ran sut y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol werthuso llwyddiant prosiectau peilot unigol er mwyn annog gwell cydweithio rhwng gwasanaethau.

## Ymateb:

Gwrthod

Fel y dywedwyd yn yr ymateb i argymhelliad 8, mae’r GIG yng Nghymru mewn sefyllfa dda i elwa ar arferion da a chyfleoedd i arloesi. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei disgwyliad bod pob rhan o’r GIG yn ceisio dysgu’n barhaus o arferion gorau trwy fframwaith cynllunio’r GIG a Gweithrediaeth y GIG trwy ei lythyr cylch gwaith blynyddol. Caiff prosiectau eu gwerthuso gan y trefniadau sydd wedi’u cynnwys yn nogfennaeth y prosiect, gall hyn fod gan y rhai sy’n cyflawni’r prosiect, o bosibl gyda chefnogaeth gan sefydliadau academaidd. Gall rhai technolegau fod yn destun gwerthusiad annibynnol ffurfiol hefyd gan naill ai Technoleg Iechyd Cymru neu NICE.

Yn anffodus, nid rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw gwerthuso pob prosiect. Bydd penderfyniadau i fabwysiadu prosiectau peilot yn dibynnu ar natur y prosiect a gallai fod yn fater i sefydliad GIG unigol neu gasgliad o sefydliadau’r GIG sy’n cydweithio drwy drefniadau cenedlaethol, fel Bwrdd y Rhaglen ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried cynigion i ymgorffori prosiectau sy’n gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

# Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar y gwaith o ddatblygu cofnod iechyd electronig gofal eilaidd a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.*

## Ymateb:

Gwrthod

""""Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod rhannu data a gwybodaeth ar draws lleoliadau gofal yn bwysig i gleifion ar gyfer cefnogi eu cynlluniau iechyd a gofal ac fel rhan o gyflawni'r camau gweithredu yn Cymru Iachach. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i roi systemau cofnodion iechyd a gofal electronig sydd wedi'u profi ar waith, er mwyn sicrhau gofal mwy diogel a gwell. Mae gweithredu system Cofnodion Iechyd Electronig yn dasg gymhleth, sy'n galw am lawer o adnoddau a rheolwyr arbenigol ag iddynt hanes o gyflawni i'w gwireddu.

Nod yr' uchelgais Cysylltu Gofal' yw creu cofnodion gofal a rennir i bobl yng Nghymru, a fydd yn cefnogi GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddarparu gofal mwy diogel, mwy effeithlon a mwy cydlynol fel rhan o System Gofal Cymunedol Integredig trwy alinio â phlatfformau unigol presennol.

Mae gwaith digido ehangach tymor hwy o gofnodion yn cyd-fynd â chynlluniau ar Gysylltu Gofal a Chofnodion Gofal Iechyd Electronig a sicrhau y gellir rhannu data ar draws lleoliadau gofal, yn bwysig i'r rhai â chyflyrau cronig. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar hyn o bryd i ymgysylltu â thrydydd parti er mwyn datblygu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cofnodion Iechyd Electronig i GIG Cymru.

""'Mae achosion busnes Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer datblygu Cofnodion Iechyd Electronig ar gyfer Iechyd Meddwl wedi'u cymeradwyo o ganlyniad i'w statws uwchgyfeirio. Bydd y rhain yn gweithredu fel prosiect braenaru ar gyfer y rhaglen genedlaethol.

# Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data ar nyrsys arbenigol sy'n gweithio yng Nghymru, gan gynnwys nifer y nyrsys arbenigol a'u lleoliadau. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn i'r Pwyllgor o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.*

**Ymateb:**

Derbyn mewn Egwyddor

Nid yw nifer y nyrsys arbenigol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru yn cael ei gofnodi'n ganolog, gan nad yw'r rolau hyn yn cael eu codio o fewn y system Cofnod Staff Electronig. Byddwn yn mynd ati ar y cyd â GIG Cymru, i archwilio dulliau amgen o gasglu a chyhoeddi'r data hwn.

# Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu nyrsys arbenigol, i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn y dyfodol, gyda phwyslais ar sicrhau mynediad cyfartal iddynt i bawb ledled Cymru.*

**Ymateb:**

Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn lansio cynllun strategol ar gyfer y gweithlu nyrsio ym mis Mawrth 2025. Bydd y cynllun hwn, sy'n seiliedig ar ymgysylltu helaeth, deallusrwydd y gweithlu, a sganio gorwelion, yn amlinellu map trywydd pum mlynedd sy'n mynd i'r afael ag ysgogwyr allweddol fel newidiadau demograffig, datblygiadau mewn technoleg, disgwyliadau'r gweithlu sy'n esblygu, a diffygion hanesyddol mewn cyflenwadau. Erbyn 2030, mae'n rhaid i nyrsio yng Nghymru wella sgiliau a chapasiti i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth gydol oes. Bydd ehangu gofal yn y gymuned yn golygu y bydd gofyn cael mwy o nyrsys ar lefelau uwch ac ymgynghorol.

Mae *Fframwaith Proffesiynol* 2023 AaGIC ar gyfer *Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol* yn egluro'r rolau hyn, ac mae gwaith modelu'r gweithlu'n cael ei ddatblygu er mwyn helpu gyda'r cyflenwad a'r galw, gan gefnogi gwaith cynllunio strategol. Mae'r fframwaith modelu hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â'r gweithlu yn y dyfodol, gan sicrhau gwasanaethau nyrsio arbenigol cynaliadwy a mynediad teg ledled Cymru.

# Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylid cyfeirio pawb at gymorth iechyd meddwl ar yr adeg y cânt ddiagnosis o gyflwr cronig. Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithredu hyn, ac yna dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar y cynnydd a wnaed.*

## Ymateb:

Derbyn

Dylid cynnwys cymorth therapiwtig/iechyd meddwl mewn llwybrau ar gyfer cyflyrau cronig. Mae ein Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles sydd ar ddod yn cydnabod y gall fod effaith iechyd meddwl i bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd corfforol hirdymor. Mewn ymateb bydd y strategaeth yn cymryd dull ymyrraeth gynnar a fydd yn golygu cyfeirio'n gynt at gymorth iechyd meddwl perthnasol. Bydd y dull gweithredu yn cael ei gryfhau hefyd gan y camau a gymerwyd o dan argymhelliad 14.

Bydd y strategaeth a'r cynllun cyflawni cysylltiedig, pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill, yn rhoi mwy o fanylion ar sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Bydd y newyddion diweddaraf am y cynnydd a wneir yn erbyn y strategaeth yn cael ei gyflwyno'n flynyddol, a byddwn yn sicrhau bod yr ymatebion hyn ar gael i'r Pwyllgor.

# Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Mae'r effaith ar lesiant ac iechyd meddwl yn sgil cyflwr cronig yn dra hysbys. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, wrth i Ddatganiadau Ansawdd gael eu datblygu ar gyfer cyflyrau cronig, bod yr effaith hon yn cael ei chydnabod a bod yr angen i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael yn cael ei gynnwys ynddynt.*

## Ymateb:

Derbyn

Byddwn yn sicrhau bod yr effaith ar lesiant ac iechyd meddwl o gael diagnosis o gyflwr cronig yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad wedi'i dargedu o'r datganiadau ansawdd presennol. Byddwn yn mynd ati hefyd i ddiweddaru ein rhestr wirio ar gyfer datblygu datganiadau ansawdd newydd er mwyn sicrhau bod yr effaith ar lesiant ac iechyd meddwl yn cael ei chynnwys fel rhan o'u datblygiad fel mater o drefn.

# Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai hyfforddiant ar iechyd meddwl fod ar gael i'r holl staff meddygol sy'n gweithio gyda phobl sydd â chyflyrau cronig. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar y gwaith a wneir i wella hyfforddiant iechyd meddwl.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae hyn eisoes ar waith fel un o ofynion hyfforddiant. Mae pwysigrwydd cydnabod problemau iechyd meddwl yng nghyd-destun clefyd cronig wedi'i gynnwys ym mhob cwricwla meddygol a chaiff hyn ei asesu yn yr adolygiad blynyddol o ddatblygiad cymhwysedd (ARCP).

# Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y mae anghenion y rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig yn cael eu diwallu.*

## Ymateb:

Derbyn

Cyhoeddwyd ein Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2023. Mae'n nodi gweledigaeth o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru sydd o ansawdd uchel yn gyson ledled y wlad.

Nod y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yw datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r iaith a ddefnyddir a'r dull o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru; cefnogi ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol a datblygu sgiliau; pennu canlyniadau disgwyliedig o safbwynt defnyddwyr, sefydliadau, comisiynwyr ac atgyfeirwyr; a sicrhau darpariaeth o ansawdd gan asedau cymunedol. Bydd yn monitro ac yn gwerthuso datblygiad presgripsiynu cymdeithasol hefyd wrth iddo barhau i dyfu ledled Cymru.

Mae sawl cydran o'r Fframwaith Cenedlaethol wedi'u cwblhau, gan gynnwys fideo esboniadol , adroddiad yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos, fframwaith cymhwysedd ar gyfer ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol, a geirfa. Fodd bynnag, mae sawl cydran yn cynnwys gwaith parhaus gan gynnwys datblygu Canllawiau ar Setiau Data Craidd, Canllawiau ar gyfer Asedau Cymunedol, a datblygu manyleb genedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd datblygiad parhaus y Fframwaith Cenedlaethol yn rhychwantu tymor y Senedd a bydd yn cwmpasu ffrydiau gwaith sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu dull o ansawdd uchel, unwaith i Gymru o ran presgripsiynu cymdeithasol.

Wrth ddatblygu'r gwaith gwerthuso ar gyfer y fframwaith, rhoddir ystyriaeth i sut y mae wedi cefnogi gwahanol anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig.

# Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Rhaid gwneud gwaith i wella canlyniadau iechyd corfforol y rhai sy'n byw gyda salwch meddwl difrifol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut i wella mynediad at archwiliadau iechyd corfforol ataliol rheolaidd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 12 mis ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn.*

**Ymateb:**

Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn buddsoddi £2 filiwn bob blwyddyn yn y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl (SPMH) i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd meddwl. O fewn yr SPMH mae gan y rhwydwaith gweithredu clinigol i oedolion a phobl hŷn gamau i ddylunio llwybrau iechyd corfforol cenedlaethol cyson a safonau gofal i bobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol.

Fel y cyfeirir ato yn argymhelliad 13, bydd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill, a byddwn yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

# Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau sydd wedi'u cymryd, ers cyhoeddi Cymru Iachach, i symud gwasanaethau tuag at waith atal. Dylai hefyd amlinellu sut y mae'r camau diwygiedig i gyflawni Cymru Iachach yn cefnogi'r newid hwn.*

## Ymateb:

Derbyn

Yn y camau newydd ar gyfer Cymru Iachach, mae ffocws penodol ar gynnal gwasanaethau cynaliadwy, teg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd o ansawdd uchel i bawb gydag egwyddor sylfaenol graidd o atal yn cael ei hymgorffori yn y camau gweithredu diwygiedig.

O dan Cymru Iachach, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu amrywiaeth o ddatganiadau ansawdd sy'n nodi'r canlyniadau a'r safonau rydym yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau GIG o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae'r amrywiaeth o ddatganiadau ansawdd wedi'u cynhyrchu i gefnogi cyflyrau iechyd cronig fel canser, diabetes; clefydau anadlol a chlefyd y galon. Bwriad y datganiadau hyn yw cefnogi prosesau cynllunio lleol.

Mae'r dull hwn yn cryfhau rôl arweinyddiaeth glinigol o ran sut mae'r GIG yng Nghymru yn cael ei oruchwylio ac yn gwella'r ffocws ar ansawdd gofal iechyd. Rydym eisoes wedi gweld sut mae'r disgwyliadau hyn yn annog newid mewn gwasanaethau, fel ehangu rhaglen sgrinio'r coluddyn, darparu cymorth i bobl sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2, sefydlu Grŵp Llywio Atal Clefydau Cardiofasgwlaidd, a datblygu fframwaith comisiynu cenedlaethol ar gyfer hosbisau.

At hynny, mae ein cyllideb ddrafft yn cefnogi'n uniongyrchol nodau Cymru Iachach.

Rydym hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar atal ac ymyrraeth gynnar, ar draws sawl maes, er mwyn helpu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes. Er enghraifft, rydym yn cynnal ein buddsoddiadau sylweddol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r gwaith sylweddol y maent yn ei wneud ar yr agenda atal; Dechrau'n Deg, Gofal Plant a Theuluoedd yn Gyntaf; Pwysau Iach: Cymru Iach; rhaglenni brechu; rhaglenni sgrinio; rhaglenni iechyd rhywiol; a mentrau gwrth-ysmygu. Rydym yn cyflwyno deddfwriaeth i helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol clefydau cronig hefyd. Mae hyn oll ochr yn ochr â'r meysydd y mae Byrddau Iechyd yn parhau i fuddsoddi ynddynt yn lleol.

Rydym yn cefnogi’r GIG i gynnal eu gwasanaethau drwy flaenoriaethu cyllid ar gyfer y pwysau anochel y bydd yn ei wynebu yn 2025-26 yn sgil chwyddiant a thwf mewn galw, yn ogystal â chodiadau cyflog i’r gweithlu.

Rydym yn gwneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol yn y GIG ac mae tua £65 miliwn hefyd yr ydym yn ei ddyrannu i feysydd blaenoriaeth allweddol eraill, gan gynnwys:

- Y Cynnig Gofal Plant
- Hyfforddiant Gweithlu’r GIG, gan gynnwys Ysgol Feddygol Gogledd Cymru
- Buddsoddiadau Digidol
- Iechyd Menywod
- Hosbisau

Mae ffocws penodol hefyd ar faterion digidol a’r gweithlu o fewn y camau diwygiedig sy’n sail i’r strategaeth Cymru Iachach. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y ddau faes hyn, ochr yn ochr â £35 miliwn ychwanegol sy’n cael ei ddyrannu ar draws y ddau, yn y Gyllideb Ddrafft.

# Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, i wella'r cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau cymorth i bobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig er mwyn mynd i'r afael â materion ehangach y tu hwnt i iechyd, gan gynnwys tai, dyled a chyflogaeth.*

## Ymateb:

Derbyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl â chyflyrau cronig yn cael eu galluogi i gael gafael ar gymorth ar gyfer rhai o benderfynyddion ehangach iechyd. Fodd bynnag, bydd angen mynd i'r afael â hyn o fewn ein dull poblogaeth gyfan. Mae gennym eisoes bolisïau, rhaglenni a buddsoddiadau sylweddol ar waith sy'n cefnogi pobl i gael gafael ar gymorth ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys:

Rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i asesu ac ymateb i lesiant y boblogaeth gan sicrhau bod ein cymunedau a'n poblogaeth yn gallu cyflawni'r 7 Nod Llesiant.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i'r rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, caiff hyn ei gyflawni drwy bwyntiau mynediad sengl neu hybiau.

Y ddyletswydd a roddir ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i 'gydweithredu' wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau i bobl ag anghenion gofal a chymorth. Caiff hyn ei hwyluso drwy'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd gennym yng Nghymru sy'n cynnwys aelodaeth o'r sector Addysg, y sector Tai a'r Trydydd Sector ochr yn ochr â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl.

Buddsoddiad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gwerth £146m drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y mae £24.8m ohono'n cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn narpariaeth y trydydd sector, i gefnogi pobl i fyw'n dda ac aros yn iach yn eu cartrefi, gan gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn y gymuned.

Mae’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol hefyd am fuddsoddi’r Gronfa Tai â Gofal gwerth £65m, sy’n datblygu atebion sy’n seiliedig ar lety ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth.

# Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar gyflwyno asesiadau trawslywodraethol o'r effaith ar iechyd ac amlinellu sut y bydd yn arwain y gwaith o lunio polisïau er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIA) yn ffordd systematig o ystyried iechyd fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio.

Mae'r Asesiadau hyn yn ddull o helpu pobl i asesu effeithiau iechyd posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar boblogaeth, yn enwedig ar grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn cyd-fynd yn benodol â'r dull 'Iechyd ym mhob Polisi', gan gydnabod bod canlyniadau iechyd yn aml yn cael eu dylanwadu gan ffactorau y tu hwnt i'r sector iechyd, fel addysg a thai (penderfynyddion ehangach iechyd).

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a ddaeth i ben ar 29 Mawrth 2024.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, mae swyddogion wrthi'n datblygu'r Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ac yn bwriadu gosod y rhain gerbron y Senedd yr hydref hwn (2025).

Goblygiadau Ariannol:

Bydd gofynion ychwanegol o ran adnoddau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar:

- Lywodraeth Cymru; cefnogi gweithredu a gwerthuso

- Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru; datblygu arweiniad a hyfforddiant
- y cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt; mynychu hyfforddiant, diweddaru prosesau a chynnal Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

Y bwriad yw ymgorffori'r Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn y prosesau presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Felly, nid ydym yn disgwyl i'r effaith fod yn sylweddol a bydd yn cael ei rheoli o fewn dyraniadau presennol.

# Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

*Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt presennol ar hyrwyddo llythrennedd iechyd i bobl yng Nghymru.*

## Ymateb:

Derbyn

Mae llythrennedd iechyd yn cyfeirio, yn gyffredinol, at allu unigolion i gael mynediad at wybodaeth, ei deall a'i defnyddio mewn ffyrdd a fydd yn hybu ac yn cynnal iechyd da[1] iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Nododd ymchwil diweddar gan y Ganolfan Ymchwil, Gweithgarwch a Lles ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (a gomisiynwyd gan ICC) nad yw 1 o bob 5 o bobl yn gwybod pa gamau i'w cymryd i ddiogelu a gwella eu llesiant meddyliol, gan gynyddu i fwy nag 1 o bob 4 dyn, pobl ag anableddau ac oedolion ifanc, ac ymhellach eto i 2 o bob 5 o bobl sy'n adrodd bod eu hiechyd yn wael[2].

Nid adnodd personol yn unig yw llythrennedd iechyd ychwaith; mae lefelau uwch o lythrennedd iechyd o fewn poblogaethau yn esgor ar fanteision cymdeithasol hefyd, er enghraifft trwy ysgogi cymunedau i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol iechyd. Mae llythrennedd iechyd isel yn cael ei gysylltu fwyaf ag amddifadedd ariannol, ac yna statws cymdeithasol, addysg ac oedran.[3] Bydd gwella'r sylfeini sy'n ymwneud ag iechyd yn cyfrannu at wella llythrennedd iechyd.

Addysg: Yn gyffredinol, mae lefelau uwch o addysg yn arwain at lythrennedd iechyd gwell, gan alluogi unigolion i ddeall gwybodaeth am iechyd a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Cyflogaeth: Gall incwm a chyflogaeth effeithio ar fynediad at adnoddau sy'n gallu gwella llythrennedd iechyd.

---

[1] Nutbeam, Don. 1998. "Health promotion glossary." Health Promot. Int., 13 (4): 349-364.

[2] https://hapus.cymru/newyddion/deall-lles-meddyliol-yng-nghymru/

[3] Sørensen, K., Pelikan, JM., Röthlin, F., Ganahl, K., Slonska, Z., Doyle, G., Fullam, J., Kondilis, B., Agrafiotis, D., Uiters, E. a Falcon, M., 2015. Health literacy in Europe: comparative results of the European health literacy survey (HLS-EU). *The European journal of public health*, *25*(6), tt.1053-1058.

Mynediad at ofal iechyd: Gall gwasanaethau iechyd sy'n darparu gwybodaeth glir a dealladwy (mewn gwahanol ieithoedd) wella llythrennedd iechyd cleifion.

Cymuned: Gall rhwydweithiau cymdeithasol ac adnoddau cymunedol helpu i hwyluso cleifion i helpu i reoli eu hiechyd.

Yr Amgylchedd Adeiledig: Gall yr amgylchedd lle mae pobl yn byw helpu llythrennedd iechyd trwy ddarparu mynediad i lyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a lle diogel ar gyfer dysgu.

Mae llythrennedd iechyd yn darparu cyfleoedd gwych i rymuso unigolion a chymunedau i reoli eu hiechyd eu hunain yn well gan ddarparu arbedion posibl sylweddol i'r system gofal iechyd. Fel rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd, mae'n bwysig i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG ystyried llythrennedd iechyd fel rhan o barthau gofal 'teg' 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.

Mae gwella llythrennedd iechyd yn offeryn pwerus ar gyfer hunanreoli cyflyrau iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ehangach sy'n gysylltiedig ag iechyd. Trwy rymuso unigolion gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd, gallwn helpu i leihau'r bylchau mewn canlyniadau iechyd rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol.

## Camau sy'n cael eu cymryd

Mae camau gweithredu wedi'u hymgorffori ar draws y llywodraeth, lle mae ein partneriaid yng Nghanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru yn canolbwyntio ar addysg a gwybodaeth i gleifion i gefnogi llythrennedd iechyd fel rhan o'u gwaith ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ymgyrchoedd ar amrywiaeth o bynciau iechyd hefyd gan gynnwys sgrinio, brechu a ffyrdd o ddiogelu a gwella iechyd.

Mae ein dull o rymuso dinasyddion mewn penderfyniadau am eu hiechyd eu hunain yn mynd y tu hwnt i siarad am ddewisiadau ffordd o fyw fel rhoi'r gorau i ysmygu, yfed llai o alcohol neu fod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant fel un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad Dysgu craidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i gefnogi ein pobl ifanc i dyfu i fyny i fod yn ddinasyddion sy'n deall sut a pham mae eu hiechyd corfforol a meddyliol yn bwysig, a'r camau y gallant eu cymryd i wneud y dewisiadau cywir er mwyn byw bywydau hapus ac iach.